# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 12 HYDREF 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | C R Doyle | C R Evans |
| M B Lewis | L V Walton | |

**Swyddogion**
Gavin Evans - Gwasanaethau Pobl Ifanc
Helen Gaht - Gweithiwr Allgymorth Haen 1
Michelle Baker - Gweithiwr Allgymorth Haen1
Richard Henderson - Swyddog Troseddu Ieuenctid Bae'r Gorllewin
Caroline Dyer - Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: H M Morris, R V Smith a C Thomas

28 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

29 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016 yn gofnod cywir.

30 **TRAFODAETH Â GWEITHWYR ALLGYMORTH HAEN 1.**

Cafodd y cefndir i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Allgymorth Haen 1 ei amlinellu gan Gavin Evans, Helen Gaht a Michelle Baker i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet.

Nodwyd ganddynt mai prif swyddogaeth y tîm yw dod o hyd i bobl ifanc na wyddys amdanynt a'r rhai sydd wedi mynd ar goll o'r system. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth agos â Gyrfa Cymru i gysylltu â phobl ifanc a'u cynnwys gan eu hannog i ddychwelyd i addysg/hyfforddiant/gyflogaeth lle y bo'n briodol.

Gwnaethant fanylu ar feysydd gwaith canlynol y tîm:

- Pa bobl ifanc sydd yn Haen 1
- Pam mae'n bwysig i ddod o hyd i bobl ifanc a'u cefnogi
- Dulliau o sut mae staff yn dod o hyd i bobl ifanc ac yn eu cynnwys
- Mathau cymhleth ac amrywiol iawn o faterion y deuir ar eu traws wrth ddod o hyd i bobl ifanc
- Yr hyn rydym yn ei wneud i'w cynorthwyo a'u hannog ar ôl dod o hyd iddynt
- Nifer y bobl ifanc Haen 1 yn Abertawe o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan.
- Y ffaith nad yw rhai pobl am gael cymorth ac nad ydynt am fod yn y system ar hyn o bryd
- Rhannu gwybodaeth â Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol yn ôl yr angen
- Symud rhwng haenau ar ôl dod o hyd i'r bobl ifanc a nodi eu hanghenion
- Yr effaith ar ffigurau NEET o symudiad Haen 1
- Y gallu i gasglu a chynnwys pobl ifanc o'r "cyrchfan" a nodir ganddynt ar ôl iddynt adael yr ysgol

Gofynnodd aelodau gwestiynau am y meysydd pwnc uchod ac ymatebodd swyddogion i'r rhain yn eu tro.

31 **TÎM TROSEDDAU IEUENCTID.**

Rhoddodd Richard Henderson a Caroline Dyer drosolwg o waith eu gwasanaeth gyda phobl ifanc, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Nifer y bobl ifanc sydd ar orchmynion statudol ar hyn o bryd
- Nifer y disgyblion sydd o oed ysgol ar hyn o bryd sy'n ymwneud â'r TTI
- Nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd
- Gostyngiad dros y deng mlynedd diwethaf yn nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r TTI
- Math a difrifoldeb troseddau pobl ifanc sy'n ymwneud â'r TTI
- Cydgysylltu parhaus â'r Tîm Allgymorth
- Gwaith plant sydd mewn gweithgor dalfa
- Mentrau dedfrydu/addysg/cynllun rhyddhau ar waith
- Gwasanaethau cefnogi penwythnos ac argaeledd staff cefnogi
- Argaeledd llety diogel
- Perthynas a chysylltiadau da â Charchar Parc a'r cynlluniau "meithrin" a "llwybr dysgu" sydd ar waith yno
- Prosiect meithrin sgiliau
- Amgylchiadau a heriau teuluol/personol cymhleth iawn gyda'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r TTI
- Arfer adferol a darparu cymorth i ysgolion lle mae lefelau gwahardd uchel
- Gwaith da gan y paneli ailsefydlu ac integreiddio
- Cysylltiadau ag asiantaethau/sefydliadau eraill megis Barnardo's
- Cynlluniau mentora a chefnogi
- Yr angen i gynyddu gwaith ataliol
- Gwella'r defnydd o amserlenni wedi'u lleihau i ailgynnwys ac ailintegreiddio disgyblion

- Yr angen i wella'r defnydd o ddata VAP wrth nodi pobl ifanc NEET bosib yn gynharach a darparu mesurau cefnogi penodol
- Yr angen am gwricwlwm amgen
- Ymagwedd ACES yn gysylltiedig â nodweddion ymddygiadol
- Yr angen i wella cysylltiadau ymhellach ag asiantaethau eraill, yr heddlu etc.

Bu aelodau Pwyllgor Cynghori'r Cabinet yn trafod y materion uchod yn helaeth, gan ofyn cwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd a rhoddodd atebion/wybodaeth yn eu tro.

32 **CYNLLUN GWAITH.**

Trafododd yr aelodau'r diweddariadau i raglen waith ddrafft y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** nodi'r rhaglen waith ddiwygiedig.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.15 pm

**CADEIRYDD**